

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

26ain Awst 2020

Annwyl Gyfaill,

CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher yr 2ail o Fedi 2020 am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Fel y dywedais yn fy e-bost o'r 24ain Awst, bydd rhaid dilyn canllawiau clir ar gyfer y noson drwy fynd i mewn o'r Brif Fynedfa, defnyddio y deunydd diheintio, a cherdded llwybr un ffordd ayyb. Noder hefyd na fydd modd defnyddio'r toiledau.

Rwyf wedi gwahodd Jonathan Cawley, Pennaeth Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri (ond heb gael cadarnhad y bydd yn bresennol hyd yma)

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,
Huw T Jones
CLERC

AGENDA

1. Derbyn ymddiheuriadau.
2. Croesawu Jonathan Cawley, Parc Cenedlaethol Eryri.
3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 24ain Mehefin 2020, a gyfarfu drwy zoom, gweler gopi yn atodol.
4. Materion yn codi,
 - a) Materion Priffyrdd.
 - b) Mynwent Dinas Mawddwy.
 - c) Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd 2020/21.
5. Ethol Swyddogion
 - a) Cadeirydd
 - b) Is- Gadeirydd
 - c) Clerc.
6. Materion Cynllunio
7. Materion Cyllid.
 - a) Cadarnhau Cyfrifon 2019-20. (noder cofnod 5a cofnodion 24.06.20)
 - b) Cadarnhau manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2020-21
 - c) Anfoneb SLCC £83.00. (cytunwyd l'w dalu)

8.Gohebiaeth – yn cynnwys;

a) Cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni I godi tal am fynediad I'r Wyddfa. (Manylion I'w danfon arwahan atoch)

b) Gohebiaeth BT am y bwriad I gael gwared o flychau ffon yn yr ardal.(Manylion I'w danfon arwahan atoch)

9.Unrhyw fater arall